# Ffeithlen Pensiwn Newydd y Wladwriaeth – Gweithwyr: Newidiadau i Bensiwn y Wladwriaeth ar effaith ar bensiynau gweithle

Adran Gwaith a Phensiynau

## Beth sydd wedi newid?

O 6 Ebrill 2016, mae Pensiwn newydd y Wladwriaeth ar gyfer pobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu ar ôl y dyddiad hwn. Bydd y newid hwn yn helpu pobl ddeall yn well beth fyddant yn cael o'u Pensiwn y Wladwriaeth fel eu bod yn gallu cynllunio tuag at eu hymddeoliad.

Byddwch yn gallu gwneud cais Pensiwn newydd y Wladwriaeth os ydych yn ddyn wedi eich geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1951 neu'n ferch wedi eich geni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1953.

Os ydych wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2016 – rydych yn ddyn wedi eich geni cyn 6 Ebrill 1951 neu'n ferch wedi eich geni cyn 6 Ebrill 1953 – byddwch yn derbyn y Pensiwn y Wladwriaeth o dan yr hen reolau ac nid ydych angen darllen ymhellach.

Mae'r Pensiwn y Wladwriaeth, ar gyfer pobl a gyrhaeddodd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2016, wedi ei wneud i fyny o ddwy ran; Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth ac Ail Bensiwn y Wladwriaeth (gelwir Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth weithiau'n Ail Bensiwn y Wladwriaeth neu SERPS).

Os ydych yn talu i mewn i bensiwn gweithle yn berthnasol i gyflog, fel 'cyflog terfynol' neu gynllun 'cyfartaledd gyrfa', rydych yn debygol o gael eich 'eithrio' o'r Pensiwn ychwanegol y Wladwriaeth.

Os felly, rydych chi a'ch cyflogwr wedi talu Yswiriant Gwladol ar gyfradd is oherwydd (a elwir yn "ad-daliad Yswiriant Gwladol"). Roedd hyn yn golygu efallai nad oes gennych ddim neu bron ddim o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth ac rydych yn adeiladu pensiwn gweithle yn ei le.

Bydd tri chwarter o bobl sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn y ddwy ddegawd gyntaf o'r Pensiwn newydd y Wladwriaeth wedi cael eu heithrio ar ryw adeg.

Mae Pensiwn newydd y Wladwriaeth yn disodli Pensiwn sylfaenol ac ychwanegol y Wladwriaeth.

Daeth eithrio (o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth) a'r ad-daliad Yswiriant Gwladol i ben hefyd ar 6 Ebrill 2016.

## Beth mae hyn yn ei olygu i chi

O 6 Ebrill 2016 ni fyddwch mwyach yn derbyn y 1.4% ad-daliad Yswiriant Gwladol; byddwch yn talu'r gyfradd sylfaenol o Yswiriant Gwladol.

## Sut mae'r newidiadau yn effeithio ar eich pensiwn gweithle

- Byddwch yn cadw'r pensiwn gweithle rydych wedi ei adeiladu tra'r oeddech wedi eithrio. Diogelir hyn gan y gyfraith.
- Gall cyflogwyr wneud newidiadau i'w cynllun pensiwn gweithle i helpu i wrthbwyso am y golled diwedd yr ad-daliad Yswiriant Gwladol i gyflogwyr gyda chaniatâd yr ymddiriedolwyr ac yn unol â rheolau'r cynllun. Mae'r Ddeddf Pensiynau 2014 yn caniatáu hefyd i gyflogwyr wneud newidiadau cyfyngedig heb ganiatâd.
- Cyn y gall eich cyflogwr wneud unrhyw newidiadau i'ch pensiwn gweithle, mae'n rhaid iddynt gysylltu â chi am eich barn ar eu cynigion.
- Byddwch yn derbyn eich pensiwn gweithle o hyd ar oedran arferol pensiwn eich cynllun. Nid ydych angen gwneud unrhyw beth – bydd eich cyflogwr ac eich darparwr cynllun pensiwn yn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol.

## Sut mae'r newidiadau yn effeithio ar eich Pensiwn y Wladwriaeth

- O dan y sustemau presennol a newydd, bydd y swm o Bensiwn y Wladwriaeth rydych yn derbyn yn cymryd i ystyriaeth unrhyw amser rydych wedi cael eich eithrio ac wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfradd is.
- Mae'r rhan fwyaf o bobl oedd wedi eithrio yn gallu cael mwy o Bensiwn y Wladwriaeth o dan y cynllun newydd o ganlyniad i'r newidiadau i'w cymharu o dan y system bresennol.

## Beth ddylech ei wneud nawr

Gwiriwch os ydych wedi eich eithrio:

- Efallai bod eich slip cyflog cyn 6 Ebrill 2016 yn nodi p'un ai os ydych wedi eithrio, drwy ddangos y llythyren 'D' nesaf i'ch taliadau Yswiriant Gwladol. Gallai ddangos hefyd y llythyren E, L, N neu O.
- Os ydych ddim yn siŵr o hyd, gwiriwch amodau a thermau eich cynllun.

## Sut i gael mwy o wybodaeth

I gael gwybod mwy am:

- y Pensiwn newydd y Wladwriaeth, ewch i **www.gov.uk/new-state-pension**
- sut i gael rhagolwg Pensiwn newydd y Wladwriaerth, ewch i **www.gov.uk/check-state-pension**
- cyfraddau'r Yswiriant Gwladol, ewch i **www.gov.uk/national-insurance/national-insurance-contributions-how-much-you-pay**
- pensiynau gweithle, ewch i **www.gov.uk/workplace-pensions/types-of-workplace-pensions**

Cyllid & Thollau EM